


# <u>**Gofal Deintyddol Ravenhill**</u>

566 Middle Road
Ravenhill
Abertawe
SA5 5DH



Oriau Agor

Dydd Llun i Ddydd Gwener
9.00yb tan 5.30yp

Ar gau 1yp tan 2yp

Rhif ffôn: 01792 581031
Ebost:
ravenhilldentalsurgery@hotmail.co.uk

**Y Tîm Deintyddol**

Mr Behrooz Khoshooee BDS GDC 251421
Cyfarwyddwr a Phrif Ddeintydd

Bruce ydw i. Mae fy nheulu, sy'n cynnwys fy ngwraig a tri phlentyn, yn fy nghadw'n brysur. Rydyn ni'n treulio ein penwythnosau yn yr awyr agored, ar y traeth neu'n gwersylla. Rwy'n mwynhau teithio, gwrando ar gerddoriaeth ac rwy'n ffan enfawr o Man Utd er, yn anffodus, mae'n ymddangos bod y dyddiau godidog wedi dod i ben, am y tro. Mae fy mhrofiad yn amrywio o ddeintyddiaeth ysbyty a chymunedol, trin cleifion ffobig, i ddeintyddiaeth deuluol. Ymfalchïaf yn fy ngallu i wrando'n ofalus ar anghenion a phryderon fy nghleifion cyn cytuno ar y driniaeth gywir. Mae gennyf ddiddordeb arbennig mewn orthodonteg a thriniaeth gosmetig.

Mrs Maysoon Elbashier BDS GDC 198982
Deintydd Cyswllt

Maysoon ydw i. Rwy'n dod yn wreiddiol o Swdan lle mynychais Brifysgol Khartoum, lle cefais radd mewn Deintyddiaeth (BDS) yn 2006. Cyrhaeddais i Abertawe yn 2014, lle bûm yn gweithio mewn practis preifat am y tro cyntaf. Rwy'n briod a dau o blant ac yn mwynhau mynd â fy nheulu ar deithiau cerdded hir a beicio. Rwyf hefyd yn mwynhau celf caligraffeg Arabaidd. Treuliais beth amser yn Adran y Genau a'r Wyneb yn Ysbyty Treforys fel Meddyg Tŷ Uwch (SHO) lle cefais brofiad helaeth mewn triniaeth lawfeddygol. Rwyf hefyd wedi cwblhau cwrs mewn deintyddiaeth adferol uwch.

Ms Nerys Roberts GDC 318208
Deintydd Deintyddol Sylfaen

Nerys ydw i ac fe ges i fy magu ym Myddfai, Gorllewin Cymru yn wreiddiol ac rydw i'n byw yn Abertawe nawr. Dechreuais Ddeintyddiaeth yn ddiweddarach yn fy mywyd, gan ei fod yn rhywbeth roeddwn i bob amser eisiau ei wneud ond nad oedd gen i amser erioed. Graddies yn 2024 ym Mhrifysgol Dundee lle cefais fy ngradd Baglor mewn Llawfeddygaeth Ddeintyddol mewn Deintyddiaeth. Fy angerdd yw fy nghŵn, ac mae gen i dri Bugail Almaeneg, ac rwyf hefyd yn mwynhau cerddoriaeth, cyngherddau a cherdded. Rydw i wir yn mwynhau fy mlwyddyn gyntaf yn ymarfer Deintyddiaeth yn Ravenhill a hoffwn ddatblygu fy ngyrfa gan

Os dymunir copi o'ch cofnodion personol rhaid holi amdano drwy lythyr i'r rheolwr practis. Croesewir adborth a cheir holiaduron yn y dderbynfa. Gwneir apwyntiadau yn y dderbynfa neu dros y ffôn. Yn yr un modd y rheolwr practis fydd yn delio gyda chwynion a materion eraill. Bydd rheolwr y practis Mrs Dawn Barrow yn delio ag Unrhyw gwynion a gellir cysylltu a hi dros y ffôn ar 01792 581031 neu drwy e-bost yn ravenhilldentalsurgery@gmail.com. Gallwch gael taflen yn y dderbynfa yn egluro ein gweithdrefn gwyno. Ceir unrhyw wybodaeth bellach drwy gysylltu â:

Pencadlys Bae Abertawe, 1 Porth Talbot, Parc Ynni Baglan, Baglan, Port Talbot SA12 7BR. Ffôn: 01639 683344 neu:

Llais, Rhanbarth Castell-nedd Port Talbot ac Abertawe, Canolfan Iechyd a gofal Cymdeithasol Cimla, Cimla, Nedd, SA11 3SU.
Ffôn: 01639 683490.
e-bost: nptandswansea.enquiries@llaiscymru.org

Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, 1 Ffordd Y Hen Gae, Pencoed CF35 5LT. Ffôn: 03007900203.

HIW Llywodraeth Cymru, Parc Busnes Rhydycar, Merthyr Tudful, CF48 1UZ. Ffôn: 03000628163.

Cyngor Denintyddol Cyffredinol, 37 Stryd Wimpole, Llundain W1G 8DQ. Ffôn: 02071676000.

Tu allan i'r oriau agored gellir cysylltu â'r gwasanaethau brys drwy ffonio GIG Uniongyrchol ar 111.
Oriau Agor
6.00yh – 10.00yh Llun, Mercher, Gwener
10.00yb – 2.00yp Penwythnosau a Gwyliau Banc

ac ennill cymhwyster ILM lefel 3 mewn Rheolaeth Practis a Chyllid. Dechreuais yn Rheolwr Practis yn 2003. Rwy'n mwynhau gwylio ffilmiau, cerdded a threulio amser gyda fy nheulu yn enwedig fy nhri ŵyr sy'n fy nghadw'n brysur. Rwyf bob amser ar gael as oes gennych unrhyw ymholiadau ynglyn a ch triniaeth, rydych wed'u derbyn, mae croeso i chi gysylltu a mi ar 01792 581031 neu anfon e-bost at ravenhilldentalsurgery@gmail.com.

## Ein Tîm Nyrsys Deintyddol (DCPS)

Mae gennym grŵp profiadol iawn o Nyrsys Deintyddol sy'n cynnwys saith nyrs gofrestredig GDC sydd â chyfoeth o brofiad rhyngddynt, a derbynnydd. Mae ein huwch DCP Debra Marensi hefyd yn gymwys mewn Radiograffeg ar gyfer Nyrsys Deintyddol, cymryd argraffau a defnyddio Farnais Fflworid. Mae ein DCP Hayley Shepherd yn enillydd Gwobr Addysgydd Iechyd Geneuol ac mae ein DCP Kerry Tonkin yn gymwys i gymryd pelydrau-X i nyrsys deintyddol ac yn Addysgydd Iechyd Geneuol. Ein nyrsys eraill yw Nicola sydd yn siaradwr Cymraeg, Neave, Rhianna, Justine, ac ein derbynnydd yw Michelle.



## Y Practis

Agorwyd y Practis Deintyddol ym 1946 gan y diweddar Mr F N Stares a fu farw yn 2019 yn 103 oed. Ar ei ymddeoliad trosglwyddodd y ddeintyddfa i'w fab Roger a fu yma tan ei ymddeoliad yn Ebrill 2001.
Dilynwyd ef gan Mr Elliott a ymddeolodd yn 2021 pan gymerodd Mr Khoshooee cyfrifoldeb. Mae'r staff ar hyn o bryd yn cynnwys dau lawfeddyg deintyddol, un deintydd DF, therapydd, hylenydd, rheolwr, chwech DCP a derbynnydd. Mae'r deintyddfa a derbynfa ganolog yn y blaen ac ardal fach yn y cefn, chwe ystafell driniaeth llawr gwaelod, ystafell aros fawr a thoiledau gyda mynediad i'r anabl. Defnyddir technegau a deunyddiau modern i ddarparu deintyddiaeth o safon uchel yn ein meddygfa. Rydym yn bractis addysgu a hyfforddi ar gyfer deintyddion.

Mae gan ein rheolwr a'n staff ddeintyddol cymwysedig brofiad ym mhob agwedd o ofal deintyddol ac maent yn mynychu hyfforddiant datblygol bob blwyddyn i gadw i fyny â thechnolegau a rheoliadau newydd. Byddant yn hapus i ateb cwestiynau am driniaeth ddeintyddol a chynghori ar ein hystod o gynhyrchion a gwasanaethau deintyddol ansawdd uchel. Byddwn yn cynnig gwybodaeth am ein gwasanaethau rydym yn eu darparu, boed GIG neu breifat, gan gynnwys cost yn y dderbynfa. Polisi'r practis yw tynnu enw unrhyw glaf oddi ar ein rhestr GIG Wedi iddynt golli dau apwyntiad o fewn cyfnod o chwe mis.

Rydym yn cynnig ystod eang o wasanaethau o dan y GIG, gan gynnwys, archwiliadau, pelydr-x, glanhau syml, triniaeth perio, llenwadau, tynnu dannedd, rhai triniaethau 'root canal' a dannedd gosod acrylig. Rhestrir y triniaethau hyn ym mandiau prisiau'r GIG a cheir gwybodaeth yn y dderbynfa. Yn ogystal, byddwn yn cynnig ystod o driniaethau preifat, er enghraifft, orthodeintyddiaeth, Botox, estheteg wyneb a llenwir boch. O dan ein cynllun preifat rydym yn cynnig gwasanaeth gwynnu dannedd, dannedd gosod valplast, gwaith coron a phont ac ati.

Ceir mwy o wybodaeth yn y dderbynfa. Ni oddefir unrhyw drais nag ymddygiad sarhaus gan glaf a thynnir enwau troseddwyr oddi ar ein rhestri cleifion. Mewn rhai achosion gelwir am gymorth yr Heddlu.

Mae gwybodaeth am gleifion yn gyfrinachol ac ar gael i aelodau staff yn unig ac ni rennir â neb arall.



Arbenigo mewn llawdriniaeth y geg. Rydw i hefyd yn siaradwr Cymraeg.

**Mrs Gemma Kelly GDC 185826**
**Therapydd Deintyddol**

Gemma ydw i. Dechreuais mewn Deintyddiaeth fel Nyrs Ddeintyddol. Roeddwn eisiau datblygu fy ngyrfa mewn deintyddiaeth felly penderfynais ddod yn Therapydd Deintyddol. Enillais gymwysterau yn 2010 ym Mhrifysgol Caerdydd wedi llwyddo ar gwrs Diploma Addysg Uwch mewn Therapi Deintyddol a Hylendid. Fel Therapydd rwy'n gallu gwneud llenwadau, triniaeth periodontol, glanhau plaque, tynnu dannedd plant a mwy. Rwyf wedi bod yn gweithio mewn practisau preifat a GIG ers ymgymhwyso fel therapydd ac rwyf wedi datblygu gwybodaeth a phrofiad helaeth dros y blynyddoedd. Ymunais â'r tîm yn Ravenhill yn 2022. Rwy'n mwynhau cerddoriaeth ac yn treulio fy amser sbâr gyda fy mhartner a dau fab. Rydym yn mwynhau gwersylla, canŵio ac unrhyw weithgaredd awyr agored.

**Mrs Annelyse Mclean GDC 271891**
**Hylenydd**

Annelyse ydw i a dechreuais yn Ravenhill yn 2019. Enillais Gymhwysterau yn 2017 ym Mhrifysgol Caerdydd wedi llwyddo ar gwrs Diploma mewn Hylendid Deintyddol. Rwyf wedi bod yn gweithio fel hylenydd yn y GIG ac i bractisau preifat ac rwyf wedi ennill profiad a gwybodaeth ddilys ers cymhwyso. Rwy'n mwynhau treulio amser gyda fy ngŵr a'm merch fach, cymdeithasu gyda theulu a ffrindiau, teithio a ffitrwydd.

**Dawn Barrow GDC 150493**
**Rheolwr Practis**

Dawn ydw i ac rwy wedi bod yn gweithio ym Meddygfa Ddeintyddol Ravenhill ers 1992. Dechreuais gyda Mr Roger Stares yn 1992, yna yn 2001 Mr Robert Elliott ac yn 2022 Mr Behrooz Khoshooee. Dechreuais fel Cynorthwyydd Deintyddol yn 1992 ac enillais gymwysterau Nyrs Ddeintyddol yn 2000. Es ymlaen i ennill cymwysterau radiograffeg ar gyfer Nyrsys Deintyddol yn 2001. Dechreuais yn Gydlynydd Practis dan Mr Elliott lle cefais brofiad